*Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg.*

# Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru

# Coleg Caerdydd a'r Fro

**Mawrth 2023**

## Y canfyddiadau allweddol

### Beirniadaethau QAA am Goleg Caerdydd a'r Fro

Rhoddodd tîm adolygu QAA y beirniadaethau canlynol am y ddarpariaeth addysg uwch yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro:

- **Gellir teimlo hyder bod y safonau academaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn rhesymol gymaradwy.**
- **Gellir teimlo hyder bod ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.**

### Y meysydd sydd angen eu datblygu

Ni nododd y tîm adolygu unrhyw **feysydd sydd angen eu datblygu**.

### Y gwelliannau penodedig

Ni nododd y tîm adolygu unrhyw **welliannau penodedig**.

## Yr adolygiad hwn

Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu rhwng 14 a 15 Mawrth 2023 a chafodd ei weithredu gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Yr Athro Alan Howard
- Sally Dixon
- Dr Harry Williams (adolygwr sy'n fyfyriwr).

Nod cyffredinol Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru yw:

- rhoi barn arbenigol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am barodrwydd y darparwr i fynd i mewn i'r sector addysg uwch, neu i barhau i weithredu ynddo.

Lluniwyd y broses Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru i:

- sicrhau bod buddiannau'r myfyrwyr yn cael eu diogelu
- roi cyngor arbenigol er mwyn sicrhau bod enw da system addysg uwch y DU yn cael ei ddiogelu, gan gynnwys diogelu safonau graddau
- ganfod meysydd sydd angen eu datblygu a fydd yn helpu'r darparwr i symud ymlaen drwy gyfnod datblygiadol a chael ei ystyried yn ddarparwr 'sefydledig'.

Mae pob adolygiad yn ystyried trefniadau'r darparwr yn erbyn agweddau perthnasol o'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol, ac mae'n ystyried y canlynol yn arbennig:

- dibynadwyedd y safonau graddau a'u gallu rhesymol i gael eu cymharu â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill
- ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr, gan gynnwys canlyniadau'r myfyrwyr lle mae gan y darparwr hanes o ran darpariaeth addysg uwch.

## Ynghylch Coleg Caerdydd a'r Fro

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro (y Coleg) yn darparu addysg uwch a phellach ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg. Sefydlwyd y Coleg yn 2011 ac mae'n anelu at fod yn 'fusnes addysgol blaenllaw'. Erbyn hyn, mae'n gwasanaethu rhanbarth amrywiol gydag ardaloedd sylweddol o amddifadedd uchel sy'n bwydo i mewn i'w boblogaeth myfyrwyr – daw hanner ohonynt o rai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae *Cynllun 3 Blynedd 2021-2024* y Coleg yn amlinellu nifer o flaenoriaethau allweddol, gan gynnwys: “datblygu pobl fedrus a chyflogadwy, a'r cwbl yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymdeithas drwy eu bywydau” (y drydedd flaenoriaeth o ran 'Safon'); “gweithio gyda phartneriaid i uchafu ein heffaith gyfunol a chefnogi dyfodol cynaliadwy” (yr ail flaenoriaeth o ran 'Effeithiolrwydd'); “ymgysylltu cyflogwyr, datblygu gweithluoedd a darparu doniau medrus ar gyfer y dyfodol er mwyn cefnogi adferiad a thwf economaidd” (y flaenoriaeth gyntaf o ran 'Twf'); a “dathlu ein Cymreictod, ein hiaith a'n diwylliant, gan fanteisio ar gyfleoedd i atgyfnerthu ein bywydau a'n gwlad” (y drydedd flaenoriaeth o ran 'Llesiant').

Ers 2017, mae'r Coleg wedi datblygu ei ddarpariaeth addysg uwch yn gyflym iawn, ac mae'n darparu amrywiaeth o raglenni addysg uwch erbyn hyn mewn cydweithrediad â Phrifysgol De Cymru, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Kingston Llundain a Phrifysgol Gorllewin Llundain. Mae'r Coleg hefyd yn cynnig ei raglenni HNC a HND ei hun mewn partneriaeth â Pearson. O fis Medi 2023 ymlaen, bydd y Coleg hefyd yn cynnig rhaglenni a ddyfernir gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Ym mis Mawrth 2022, roedd y Coleg yn rhedeg cyfanswm o 37 o gyrsiau uwch llawn amser, a 27 o gyrsiau rhan amser wedi eu trefnu'n nifer o adrannau sy'n cynnwys Gwyddoniaeth Awyrofod ac Awyrennau; Gwasanaethau Adeiladu; Busnes, Cyllid, Astudiaethau Proffesiynol a Thechnoleg Gwybodaeth; Adeiladu; y Diwydiannau Creadigol; Addysg Gyffredinol; Gwallt a Harddwch; Lletygarwch ac Arlwyo; Iechyd a Gofal; a Chwaraeon, Twristiaeth a Gwasanaethau Cyhoeddus. Ar adeg yr ymweliad adolygu, roedd 354 o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau addysg uwch yn y Coleg.

## Y maes beirniadaeth: Dibynadwyedd y safonau academaidd a'u gallu i gael eu cymharu

### *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ)

1 Mae'r Coleg yn darparu 11 o raglenni Cenedlaethol Uwch (HNC a HND) a ddilysir gan ei bartner Pearson sy'n dyfarnu'r graddau perthnasol. Mae Pearson yn cynhyrchu dogfennaeth a manylebau cyffredinol y rhaglenni, gan roi ystyriaeth i, a chyfeirio at, y *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ). Mae'r Coleg yn gyfrifol am gynhyrchu ei ddogfen ddilysu, ei fanylebau wedi eu teilwra a'i ddisgrifwyr unedau ei hun ar gyfer pob rhaglen Genedlaethol Uwch y mae'n ei darparu. Mae esiamplau o'r manylebau'n dangos bod y cwricwla wedi eu mapio'n glir yn erbyn y lefelau yn y FHEQ, a bod disgrifiadau'r modiwlau'n rhoi manylion trefniadau asesu a'r canlyniadau dysgu a fwriedir.

2 Mae'r Coleg hefyd yn darparu 46 o raglenni a ddilysir gan y pedair prifysgol sy'n gyrff dyfarnu iddo, ac maent yn cadw'r cyfrifoldeb pennaf am osod a chynnal safonau academaidd. Er bod y prifysgolion yn cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol am gynllunio a dilysu rhaglenni, mae'r Coleg yn cymryd rhan yn y gwaith o adolygu dyfarniadau presennol cyn iddynt gael eu hail-ddilysu, ac mae cyfle iddo gynnig addasiadau i raglenni. Mae manylebau'r rhaglenni wedi eu mapio yn erbyn y lefelau priodol yn y FHEQ ac yn cyfeirio atynt, ac maent yn defnyddio pwyntiau cyfeirio allanol eraill, yn cynnwys safonau QAA ar gyfer graddau sylfaen a Datganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol QAA. Mewn perthynas â dyfarniadau a ddilysir gan y prifysgolion a chymwysterau Cenedlaethol Uwch fel ei gilydd, mae arholwyr allanol yn cadarnhau bod y safonau academaidd yn gymaradwy â'r rheiny a gyflawnir gan ddarparwyr addysg uwch eraill yn y DU.

### *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC)

3 Mae *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC) yn berthnasol i'r rhaglenni a ddilysir gan y ddwy brifysgol yng Nghymru sy'n gyrff dyfarnu iddo, ac i'r rhaglenni Cenedlaethol Uwch a ddyfernir gan Pearson. Mae manylebau'r rhaglenni'n cynnwys cyfeiriadau priodol at FfCChC, yn ogystal â'r FHEQ, ac roedd y staff yn gallu siarad yn wybodus am y ffordd yr oedden nhw'n gweithredu'r pwyntiau cyfeirio hyn yn eu gwaith diweddar o ddatblygu rhaglenni Cenedlaethol Uwch. Er enghraifft, mae disgrifwyr y modiwlau'n adlewyrchu egwyddorion FfCChC, gan gynnwys nodi'n fanwl pa wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth a ddisgwylir gan y myfyrwyr ar ddiwedd y modiwl, a sut y bydd credydau'n cael eu dyfarnu a'u casglu.

### Yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

#### Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn sicrhau bod y safonau trothwy ar gyfer ei gymwysterau'n gyson â'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol sy'n berthnasol iddynt.

4 Mae rhaglenni a ddilysir gan y pedair prifysgol partner yn atebol i reoliadau academaidd a pholisïau asesu'r brifysgol berthnasol sy'n dyfarnu'r radd. Mae cytundebau wedi eu llofnodi'n cadarnhau bod y prifysgolion yn cadw'r cyfrifoldeb pennaf am ddyfarnu'r graddau ac am sicrhau bod y safonau trothwy ar gyfer ei gymwysterau'n gyson â'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol sy'n berthnasol iddynt, yn cynnwys â'r FHEQ a FfCChC. Mae'r Coleg yn cyfrannu at y broses hon drwy gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu dyfarniadau'r prifysgolion, helpu i adolygu dyfarniadau presennol cyn iddynt gael eu hail-ddilysu, ac asesu a yw'r myfyrwyr wedi cyflawni canlyniadau dysgu'r modiwlau sy'n cyfrannu at ddyfarniad, fel y nodir yn nogfennaeth

y rhaglenni. Er enghraifft, mae'r Coleg yn gyfrifol am farcio gwaith cwrs am y tro cyntaf, rhoi adborth i'r myfyrwyr a chymryd rhan yng nghyfarfodydd byrddau arholi'r prifysgolion, yn unol â rheoliadau asesu academaidd y brifysgol berthnasol.

5 Mewn perthynas â rhaglenni Cenedlaethol Uwch a ddyfernir gan Pearson, y Coleg sy'n cynllunio a marcio'r asesiadau, yn unol â rheoliadau asesu Pearson. Mae esiamplau o'r briffiau asesu'n dangos bod y canlyniadau dysgu wedi eu mapio yn erbyn y lefelau priodol yn y FHEQ, a disgrifiodd staff y Coleg sut roedd FfCChC yn cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu rhaglenni. Mae arholwyr allanol a benodir i bob rhaglen yn cadarnhau bod y cymwysterau'n gyson â'r fframweithiau cymwysterau.

### Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn sicrhau bod y myfyrwyr y dyfernir cymwysterau iddynt yn cael y cyfle i gyrraedd safonau sy'n uwch na'r lefel trothwy sy'n cymharu'n rhesymol â'r rheiny a gyflawnir gan fyfyrwyr darparwyr eraill yn y DU.

6 Mae'r trefnau marcio a safoni'n dilyn rheoliadau academaidd a rheoliadau asesu pob un o'r pedair prifysgol unigol a Pearson – fel cyrff dyfarnu a sefydliad dyfarnu'r Coleg, yn y drefn honno. Mae'r briffiau asesu a ddatblygwyd ar y cyd â'r prifysgolion yn cynnwys meini prawf sy'n pennu'r hyn a ddisgwylir gan y myfyriwr er mwyn cyrraedd safonau sy'n uwch na'r trothwy. Ar gyfer rhaglenni Cenedlaethol Uwch, mae Pearson yn cynhyrchu cyfres o ddisgrifwyr graddau 'teilyngdod' a 'rhagoriaeth' generig sydd wedi eu cynnwys ym manylebau'r cymwysterau. Ar gyfer pob uned mewn rhaglen, mae'r Coleg yn llunio cyfres o ganlyniadau dysgu gydag asesiadau a meini prawf marcio cysylltiedig sy'n rhoi gwybod i'r myfyrwyr am yr hyn sydd angen ei ddangos er mwyn cyflawni'r graddau 'teilyngdod' a 'rhagoriaeth' uwch.

7 Dywedodd myfyrwyr sy'n astudio ar raglenni Cenedlaethol Uwch a rhaglenni a ddilysir gan y prifysgolion eu bod yn ei gweld hi'n hawdd cael gafael ar wybodaeth am asesiadau yn y llawlyfrau ac ar y rhith-amgylchedd dysgu, a bod y meini prawf asesu'n dangos yn glir yr hyn sy'n ofynnol i gyflawni gwell marciau. Canmolodd y myfyrwyr lefel y gefnogaeth a roddwyd iddynt gan y staff, gan gynnwys yr adborth datblygiadol a'r targedau a osodwyd i wella marciau mewn asesiadau dilynol.

8 Anfonir samplau o waith myfyrwyr sy'n cwmpasu amrediad o lefelau cyflawniad at arholwyr allanol i gael eu safoni. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn cadarnhau bod lefelau cyflawniad y myfyrwyr yn gymaradwy â'r rheiny a gyflawnir gan fyfyrwyr darparwyr eraill yn y DU. Felly, drwy weithio gyda'i bartneriaid dyfarnu, mae'r Coleg yn sicrhau bod y myfyrwyr y dyfernir cymwysterau iddynt yn cael y cyfle i gyrraedd safonau sy'n uwch na'r lefel trothwy.

### Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol i sicrhau bod safonau ei ddyfarniadau'n sicr ac yn ddibynadwy, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y cyrsiau neu pwy bynnag sy'n eu darparu.

9 Llofnodwyd cytundebau a dyrannwyd cyfrifoldebau cysylltiedig sy'n nodi sut mae'r Coleg yn gweithio gyda'r prifysgolion a Pearson i wneud yn siŵr bod y safonau academaidd yn sicr ac yn ddibynadwy. Mae'r trefniadau hyn wedi eu tanategu gan reoliadau academaidd a rheoliadau asesu'r prifysgolion a Pearson. Y prifysgolion yn y pendraw sydd â'r awdurdod am bob dyfarniad a ddyfernir yn eu henwau hwy, ac mae Pearson yn cynnal goruchwyliaeth drwy ei broses o gymeradwyo canolfannau, a thrwy benodi arholwyr allanol. Felly, mae trefniadau dibynadwy ac effeithiol ar waith i sicrhau y cynhelir safonau academaidd.

10 Mae pob prifysgol yn penodi tiwtoriaid cyswllt i gefnogi'r bartneriaeth gyda'r Coleg, gan gynnwys mewn perthynas â chynnal safonau academaidd. Maent yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd byrddau rhaglenni'r Coleg ac yn hwyluso, er enghraifft, digwyddiadau marcio

a safoni ar draws y Coleg, a hyfforddiant ar gyfer byrddau asesu. Mae staff y Coleg yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd, byrddau asesu a digwyddiadau datblygiad proffesiynol y brifysgol berthnasol. Hefyd, mae'r Coleg yn cymryd rhan ym mhrosesau monitro blynyddol ac adolygu cyfnodol pob prifysgol, gan gynnwys drwy gynhyrchu adroddiad blynyddol gyda chynllun gweithredu.

11 Mae'r Coleg yn gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant i ddarparu lleoliadau gwaith ar 11 o'r rhaglenni, yn cynnwys rhaglenni Cenedlaethol Uwch a graddau sylfaen. Nid yw cyflogwyr yn ymwneud fel arfer ag asesu gwaith myfyrwyr sy'n arwain at ddyfarnu credydau, ond tiwtoriaid y Coleg sy'n asesu unrhyw aseiniadau academaidd crynodol cysylltiedig (er enghraifft, portffolio adfyfyriol). Mewn un achos, sef Gradd Sylfaen mewn Arbenigedd Chwarae Gofal Iechyd, mae'r gofynion achredu'n nodi bod mentor allanol yn asesu'r arferion proffesiynol, ac mae'n amlwg bod gofynion y corff dyfarnu'n cael eu dilyn. Felly, nid yw'r partneriaethau gyda darparwyr lleoliadau gwaith yn effeithio'n niweidiol ar hygrededd, diogelwch a chadernid safonau academaidd yn y Coleg.

### Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn defnyddio arbenigedd allanol, ac yn defnyddio prosesau ar gyfer asesu a dosbarthu sy'n ddibynadwy, yn deg ac yn eglur.

12 Mae'r Coleg yn dilyn polisïau a phrosesau asesu ei gyrff dyfarnu a'i sefydliad dyfarnu, ac mae gan bob un ofynion manwl yn llywio ail farcio, safoni a dosbarthu. Mae'r polisïau hyn ar gael ar y Porth Myfyrwyr ac yn cael eu hesbonio i'r myfyrwyr addysg uwch yn rhan o sesiwn ymsefydlu ar-lein y Coleg.

13 Y cyrff dyfarnu sy'n pennu cyfrifoldebau'r Coleg mewn perthynas â chynllunio, marcio a safoni asesiadau. Mae'r Coleg yn gyfrifol am farcio asesiadau am y tro cyntaf, gan ddefnyddio'r meini prawf sydd wedi eu nodi ym mhob briff asesu. Yn dibynnu ar ofynion y brifysgol unigol, gallai'r broses safoni gynnwys adolygu sampl o'r gwaith wedi ei asesu neu farcio dwbl. Mae staff y Coleg yn deall eu cyfrifoldebau a sut mae'r rhain yn gwahaniaethu rhwng y cyrff dyfarnu. Gwneir penderfyniadau am ddyfarnu cymwysterau a chynnydd myfyrwyr unigol gan fwrdd asesu'r brifysgol berthnasol lle mae cynrychiolydd o'r Coleg yn bresennol. Penodir arholwyr allanol i sicrhau bod prosesau asesu pob rhaglen yn cael eu goruchwylio'n allanol. Felly, mae'r trefniadau hyn yn deg ac yn ddibynadwy, ac mae staff y Coleg yn eu deall yn dda.

14 Ar gyfer rhaglenni Cenedlaethol Uwch, mae'r sefydliad dyfarnu'n pennu'r canlyniadau dysgu a'r disgrifwyr graddau generig cysylltiedig y mae'n rhaid i'r Coleg eu rhoi yn eu cyd-destun ymarferol drwy gynllunio a gosod asesiadau. Mae'r Coleg yn gyfrifol am wirio'r safonau marcio'n fewnol, a gwneir hyn gan Aseswr Ansawdd mewnol ar bob rhaglen. Rôl Aseswr Ansawdd yw monitro gwaith marcio'r aseswyr, sicrhau cysondeb ar draws y rhaglenni, a gweithredu fel cyswllt rhwng yr arholwr allanol a benodir gan Pearson a'r aseswyr. Mae'r rôl hon yn helpu i sicrhau y gweithredir y prosesau asesu a'r cyfrifoldebau cysylltiedig mewn ffordd deg a dibynadwy. Yna mae arholwyr allanol yn safoni sampl o waith y myfyrwyr, a chynhelir byrddau asesu mewnol, yn unol â'r rheoliadau sy'n berthnasol i raglenni Cenedlaethol Uwch Pearson a'r arweiniad sydd wedi ei nodi yng Nghanllawiau Pearson i Ganolfannau ar Sicrhau Ansawdd ac Asesu Cymwysterau BTEC [BTEC Centre Guide to Quality Assurance and Assessment].

15 Dywedodd y myfyrwyr eu bod yn fodlon â'r prosesau asesu y mae'r Coleg yn eu gweithredu, gan gynnwys y wybodaeth glir am asesiadau a'r meini prawf marcio sydd ar gael iddyn nhw, a'r adborth datblygiadol a defnyddiol a roddir iddynt, lawer cynharach fel arfer na tharged y Coleg o 21 diwrnod gwaith. Disgrifiodd aelodau o'r staff addysgu mor effeithiol oedd y trefniadau asesu gyda'r gwahanol bartneriaid, sut y gosodwyd targedau i'r myfyrwyr, a sut y cawsent eu cefnogi i'w cyrraedd.

16 Mewn perthynas â chynnal safonau academaidd, arholwyr allanol yw'r brif ffynhonnell arbenigedd allanol. Mae arholwyr allanol yn cymryd rhan mewn byrddau asesu mewnol a byrddau asesu'r prifysgolion, ac mae eu hadroddiadau ffurfiol yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd byrddau rhaglenni a'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd. Er enghraifft, mewn ymateb i adborth, mae'r Coleg wedi mabwysiadu templedi safonol Pearson ar gyfer briffiau asesu erbyn hyn er mwyn sicrhau cysondeb rhwng rhaglenni. Hefyd, mae'r adroddiadau monitro rhaglenni blynyddol a gyflwynir i bob prifysgol bartner yn cynnwys canlyniadau adroddiadau'r arholwyr allanol, ac unrhyw gamau gweithredu sy'n codi ohonynt.

### Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd sy'n ymwneud â safonau'n rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant.

17 Mae gan y Coleg strwythur pwyllgorau ymgynghori a phrosesau cysylltiedig sydd wedi eu sefydlu'n dda ac sy'n cefnogi diwylliant o adolygu, ystyried a gwella yn ei ddarpariaeth addysg uwch er budd y myfyrwyr. Llofnodwyd cytundebau sy'n nodi bod y Coleg yn atebol i brosesau monitro blynyddol ac adolygu cyfnodol y prifysgolion. Mae'r Coleg yn nodi bod prosesau monitro a gwerthuso'r prifysgolion, er eu bod ychydig yn wahanol, yn canolbwyntio ar ddadansoddi data tebyg, yn ystyried adroddiadau arholwyr allanol ac yn gofyn i'r Coleg gynhyrchu adroddiad ffurfiol ochr yn ochr â chynllun gweithredu. Ar gyfer rhaglenni Pearson, mae'r broses o adolygu rhaglenni'n cynnwys dadansoddi data'n fewnol, megis cyfraddau cadwraeth a llwyddiant, yn ogystal ag ymateb i argymhellion gan arholwyr allanol. Hefyd, mae data sy'n benodol berthnasol i raglenni unigol yn derbyn ystyriaeth yng nghyfarfodydd byrddau rhaglenni lle mae tiwtor cyswllt y brifysgol berthnasol yn bresennol. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd, sy'n cyfarfod bum gwaith y flwyddyn, yn edrych ar ddata'n ehangach ar draws holl ddarpariaeth addysg uwch y Coleg, ac yn rhoi adroddiadau i'r Bwrdd Academaidd Addysg Uwch sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am oruchwylio'r ddarpariaeth yn fewnol. Gosodir targedau mewn perthynas â chadwraeth, cyflawniad dyfarniadau a chynnydd y myfyrwyr, ochr yn ochr ag ystod o ddangosyddion ansawdd.

## Y Disgwyliadau o ran Safonau sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

18 Mae'r Coleg yn gweithio gyda phedwar corff dyfarnu ac un sefydliad dyfarnu, sydd â'r cyfrifoldeb pennaf am safonau academaidd y dyfarniadau. Ond, mae'r Coleg yn cyfrannu at waith y cyrff dyfarnu o ddatblygu ac adolygu rhaglenni, ac mae'n gyfrifol am ddatblygu ei ddogfen ddilysu, ei fanylebau wedi eu teilwra a'i ddisgrifwyr unedau ei hun ar gyfer pob rhaglen Genedlaethol Uwch a ddyfernir gan y sefydliad dyfarnu perthnasol. Mae manylebau'r rhaglenni a dogfennau eraill y cyrsiau'n dangos eu bod wedi eu halinio'n glir â'r FHEQ, FfCChC a'r pwyntiau cyfeirio eraill, megis y Datganiad Meincnodi Pwnc ar gyfer Graddau Sylfaen, a gyhoeddwyd gan QAA. Mae staff y Coleg yn dangos eu bod yn deall sut i'w gweithredu, ac maent yn deall eu cyfrifoldebau dirprwyedig yn llawn am gynnal safonau academaidd, gan gynnwys gofynion o ran cynllunio, marcio a safoni asesiadau. Mae'r prosesau asesu a dosbarthu'n cyfateb â gofynion rheoliadau academaidd ei gyrff dyfarnu a'i bartner dyfarnu. Mae staff y Coleg yn deall y prosesau hyn yn dda, a chânt eu defnyddio mewn ffordd deg a dibynadwy i asesu a yw'r myfyrwyr wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu a fwriedir. Ymhellach, mae arholwyr allanol yn cadarnhau bod y safonau academaidd yn gyfatebol i'r safonau a gydnabyddir gan y sector, a bod safonau'r rhaglenni'n bodloni gofynion y fframweithiau cymwysterau cenedlaethol perthnasol.

## Y feirniadaeth

19 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Coleg yn effeithiol o ran cyflawni'r Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin a'i fod yn cynnal safonau'r dyfarniadau, ac felly mae'n bodloni'r Disgwyliadau

o ran safonau sydd wedi eu nodi yn y Cod Ansawdd. I ffurfio ei feirniadaethau, gallai'r tîm adolygu archwilio ystod eang o dystiolaeth ddogfennol, sy'n cynnwys dogfen hunanwerthusiad; a gallai'r tîm adolygu hefyd gwrdd ag amrywiaeth eang o staff a myfyrwyr y Coleg. Galluogodd y cyfarfodydd a'r dogfennau i'r tîm adolygu weld tystiolaeth gadarn sy'n dangos bod safonau academaidd y cyrsiau'n bodloni gofynion y fframweithiau cymwysterau cenedlaethol sy'n berthnasol iddynt (*y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon*, a'r Disgwyliadau, yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin mewn perthynas â safonau sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU); a bod y cymwysterau a ddyfernir yn gyfatebol i'r safonau a gydnabyddir gan y sector.

20 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo **hyder** bod y safonau academaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn rhesymol gymaradwy.

## Y maes beirniadaeth: Ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr

### Yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

#### Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr system dderbyn sy'n deg, yn ddibynadwy ac yn gynhwysol.

21 Mae Polisi Derbyn y Coleg, a adolygwyd ym mis Awst 2021, a'r Polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol ar gael ar wefan y Coleg, ac maent yn cael eu goruchwylio gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd. Mae'r polisïau'n ymwneud â chyfrifoldebau, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a'r broses apelio. Dywedodd y myfyrwyr fod gwybodaeth am y cyrsiau ar gael iddynt yn y Canllaw Cyrsiau Addysg Uwch neu ar wefan y Coleg, a bod y staff wedi ateb unrhyw gwestiynau oedd ganddynt yn gyflym iawn.

22 Gwneir ceisiadau'n uniongyrchol i'r Coleg neu drwy UCAS. Mae'r staff sy'n ymwneud â recriwtio a derbyn ymgeiswyr wedi eu hyfforddi'n briodol, ac maent yn deall eu rolau yn y broses. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys prosesu ceisiadau a chyfathrebu â'r ymgeiswyr mewn da bryd, gwirio cymwysterau mynediad, a dangos i'r ymgeisydd ymhle i gael cyngor ac arweiniad perthnasol, os bydd angen. Gall ymgeiswyr sy'n aflwyddiannus neu'n anfodlon â'r ffordd yr ymdriniwyd â'u cais wneud cwyn gan ddilyn trefn gwyno'r Coleg sydd ar gael ar ei wefan.

#### Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn llunio a/neu'n darparu cyrsiau o safon uchel.

23 Lle darperir y ddarpariaeth addysg uwch o dan drefniadau etholfreinio, defnyddir prosesau ffurfiol y brifysgol bartner berthnasol ar gyfer cynllunio, datblygu a chymeradwyo rhaglenni. Datblygir rhaglenni Cenedlaethol Uwch Pearson gan ddilyn proses debyg, ac mae'r Coleg yn gyfrifol am wneud y gwaith datblygu mewn cydweithrediad â'r sefydliad dyfarnu. Yn rhan o hyn, mae'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd yn craffu ar gynigion am gyrsiau newydd ac mae'r Bwrdd Academaidd Addysg Uwch yn eu cymeradwyo i'w datblygu. Gwneir ceisiadau i Pearson am gymeradwyaeth i gynnig cyrsiau newydd, a gwneir hynny drwy gyfrwng yr Adran Ansawdd. Mae'r ddogfen Strategaeth Addysg Uwch yn nodi cenhadaeth ac amcanion strategol y Coleg sy'n llywio datblygiad cyrsiau addysg uwch.

24 Mae manylebau'r rhaglenni'n rhoi gwybodaeth fanwl sy'n cynnwys amlinelliad o ddulliau addysgu ac asesu megis darlithoedd, seminarau, sesiynau tiwtora, a, lle bo'n briodol, gweithgareddau dysgu seiliedig ar waith. Roedd y myfyrwyr yn canmol safon y cyrsiau a ddarperir sydd, yn eu barn hwy, yn ateb eu hanghenion dysgu. Mae ystod o brosesau ar waith i helpu i fonitro a chynnal safonau uchel y cyrsiau, gan gynnwys prosesau monitro blynyddol ar lefel y rhaglenni ac ar lefel y Coleg.

#### Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr nifer ddigonol o staff sydd â'r cymwysterau a'r sgiliau priodol i ddarparu profiad academaidd o safon uchel.

25 Mae'r staff addysgu'n ymwneud â chyflwyno'r ddarpariaeth addysg uwch ac addysg bellach fel ei gilydd. Mae amrywiaeth o brosesau ar waith i helpu i gefnogi'r staff i gyflwyno cyrsiau addysg uwch. Yn rhan o'r prosesau hyn, mae gofyn i bob aelod o'r staff addysgu gael eu harsylwi gan eu cymheiriaid, er enghraifft drwy dro drwy'r dosbarth neu arsylwi gwersi. Rhoddir adborth ar arsylwadau a chedwir cofnodion. Disgrifiodd y staff y broses o arsylwi gan gymheiriaid fel proses gefnogol a buddiol, a rhoesant esiamplau o sefyllfaoedd lle'r oedd wedi arwain at wella'r arferion. Cefnogir y staff i wneud cais am statws Cymrawd Advance HE. Mae 22 o aelodau staff wedi sicrhau statws Cymrawd.

26 Canfyddir cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r broses o adolygu datblygiad perfformiad y staff. Mae cyfleoedd ar gael i'r staff wneud gwaith ymchwil a chymryd rhan mewn

gweithgareddau ysgolheigaidd a chânt eu cefnogi yn eu datblygiad. Mae cyfle i'r staff addysgu gyflwyno cynnig am waith ymchwil addysgol a chyhoeddi erthyglau yng Nghyfnodolyn Addysg Uwch y Coleg. Mae'r aelodau o staff addysgu y cyfarfu'r tîm â nhw'n gwerthfawrogi'r cyfleoedd datblygiad a'r cysylltiadau â'r prifysgolion yn arbennig. Mae'r myfyrwyr yn gadarnhaol iawn am ansawdd yr addysgu a'r cymorth a ddarperir gan y staff, ac mae'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr yn adlewyrchu hynny.

### Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cefnogi myfyrwyr sy'n briodol ac yn ddigonol i ddarparu profiad academaidd o safon uchel.

27 O ran argaeledd y cyfleusterau priodol, adnoddau dysgu a chymorth i fyfyrwyr, gwneir gwiriad o hyn wrth ddilysu'r rhaglen a bydd yn cael ei fonitro drwy'r prosesau adolygu rhaglenni a chasglu adborth gan fyfyrwyr. Siaradodd y myfyrwyr yn gadarnhaol am yr adnoddau pwnc arbenigol sydd ar gael iddyn nhw. Mae'r Coleg yn ymwybodol bod y lefelau o foddhad â'i adnoddau a gafwyd yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr yn is na'r cyfartaledd yn y sector, er bod y duedd yn bositif. Mae tystiolaeth i ddangos bod y Coleg yn adolygu'r mynediad i adnoddau ar rai o'r rhaglenni ac yn mynd i'r afael â'r problemau a godwyd gan y myfyrwyr.

28 Yn ystod y cyfnod ymsefydlu, rhoddir gwybod i'r myfyrwyr am y cymorth academaidd a bugeiliol sydd ar gael iddynt, yn cynnwys cefnogaeth gan y Canolfannau Llwyddiant a Sgiliau, y Gwasanaethau Myfyrwyr, y Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol, hyfforddwyr dysgu, swyddogion lles, a'r Tîm Gyrfaoedd a Syniadau. Siaradodd y myfyrwyr yn gadarnhaol am y gefnogaeth a gânt o fewn ac oddi allan i'r ystafell ddosbarth. Gall y myfyrwyr ddefnyddio adnoddau'r brifysgol bartner berthnasol sy'n cefnogi eu dysgu.

### Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn cymryd camau i gynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol.

29 Mae Strategaeth Cynnwys Dysgwyr y Coleg yn disgrifio ei amrywiol fecanweithiau ar gyfer cynnwys y myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol. Gwneir arolygon penodol ymysg y dysgwyr addysg uwch yn flynyddol sy'n edrych ar bob agwedd o brofiad y myfyrwyr. Adroddir y canlyniadau i fyrddau'r rhaglenni ac maent hefyd yn bwydo i mewn i'r Grŵp Profiad Myfyrwyr a'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd. Ar lefel y cyrsiau, mae cynrychiolwyr y myfyrwyr yn cymryd rhan mewn byrddau'r rhaglenni gyda'r staff, ac mae'r Corff Llywodraethu llawn yn cynnwys llywodraethwr sy'n fyfyriwr addysg uwch. Mae'r Swyddog Sabothol Addysg Uwch yn cymryd rhan mewn nifer o gyfarfodydd, yn cynnwys cyfarfodydd y Bwrdd Academaidd Addysg Uwch a'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd Addysg Uwch. Darparwyd tystiolaeth i gadarnhau bod y Coleg yn cymryd pryderon o ddifrif ac yn gweithio'n galed i'w datrys pan fydd myfyrwyr yn mynegi pryder am ansawdd eu profiad addysgol.

### Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr weithdrefnau teg ac eglur sydd ar gael i'r myfyrwyr i gyd, ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau.

30 Mae tri cham i drefn gwyno'r Coleg – o ateb anffurfiol hyd at y cam apelio, a phenderfyniadau'r Pennaeth Cynorthwyol (Ansawdd, Dysgu ac Addysgu) a'r Is-Bennaeth (Taith Dysgwyr ac Ansawdd) yw'r cam olaf ym mhroses y Coleg. Mae'r drefn gyhoeddedig yn cynnwys amseriadau dangosol ac yn nodi cyfleoedd i gymryd cwynion at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Cedwir cofnod o gwynion, a chafodd 5 eu cofnodi a'u datrys neu eu cau yn ystod 2021-22. Ni chafwyd unrhyw gwynion ar gam 2 yn ystod 2021-22, ac nid oes unrhyw fyfyriwr wedi cymryd cwyn heb ei datrys i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Cadarnhaodd y myfyrwyr eu bod yn deall sut i wneud cwyn os bydd angen, a bod y deunyddiau ymsefydlu a'r llawlyfr i fyfyrwyr yn esbonio hyn.

31 Mae trefn y Coleg ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau asesu, sydd ar gael ar ei wefan, yn disgrifio'r broses o apelio yn erbyn marciau modiwlau neu ddyfarniadau terfynol. Cadarnhaodd y myfyrwyr eu bod yn gwybod sut i ganfod gwybodaeth ynglŷn â sut i gyflwyno apêl academaidd, os bydd angen – er enghraifft, yn y deunyddiau ymsefydlu a'r llawlyfrau myfyrwyr.

### Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn cynnig graddau ymchwil, mae'n eu darparu mewn amgylcheddau ymchwil sy'n addas ac yn gefnogol.

32 Nid yw'r Coleg yn cynnig unrhyw raddau ymchwil.

### Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol i sicrhau bod y profiad academaidd o safon uchel, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y cyrsiau neu pwy bynnag sy'n eu darparu.

33 Ni addysgir unrhyw ran o'i ddarpariaeth gan bartneriaid.

34 Mae dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gweithle'n rhannau annatod o lawer o raglenni addysg uwch a ddarperir gan y Coleg, yn cynnwys ei raddau sylfaen. Mae'r Tîm Gyrfaoedd a Syniadau'n gyfrifol am helpu'r myfyrwyr i ganfod cyfleoedd lleoliad gwaith, ac mae'r staff academaidd hefyd yn eu cefnogi, os bydd angen. Mae gan y Coleg y cyfrifoldeb am asesu lleoliadau gwaith – ac eithrio'r Radd Sylfaen mewn Arbenigedd Chwarae Gofal Iechyd lle mae gofyn i'r myfyrwyr drefnu eu lleoliadau gwaith eu hunain cyn cychwyn eu cwrs gyda mentor sydd wedi ei gofrestru gyda'r Ymddiriedolaeth Arbenigedd Chwarae Gofal Iechyd [Healthcare Play Specialism Education Trust] (HPSET), a rhoi gwybodaeth wrth gofrestru i gadarnhau y bydd cefnogaeth ar gael iddynt drwy gydol eu cwrs. Mae'r asesu wedi ei gysylltu â'r lleoliad gwaith, ond mae dan reolaeth yr HPSET. Mentoriaid cofrestredig yr HPSET sy'n rheoli'r portffolio, ac mae cynrychiolydd yr HPSET yn ei safoni'n allanol. Mae gofyn i fentor yr HPSET lofnodi contract am y cyfnod o ddwy flynedd. Felly, mae'r tîm adolygu o'r farn bod gan y Coleg drefniadau effeithiol i sicrhau bod y profiad academaidd o safon uchel, lle bynnag y darperir yr addysg.

### Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn cefnogi ei fyfyrwyr i gyd i gael canlyniadau llwyddiannus ar lefelau academaidd a phroffesiynol.

35 Mae gan y Coleg drefniadau ac adnoddau effeithiol i gefnogi ei fyfyrwyr i gael canlyniadau llwyddiannus ar lefelau academaidd a phroffesiynol. Clywodd y tîm adolygu sylwadau oedd yn gadarnhaol i gyd gan y myfyrwyr a'u cynrychiolwyr mewn perthynas ag ehangder a dyfnder y gefnogaeth y mae'r Coleg yn ei darparu.

36 Mae'r myfyrwyr yn cael sesiynau un-i-un neu mewn grŵp gyda'u tiwtoriaid cwrs yn rheolaidd. Dywedodd y myfyrwyr fod eu cyrsiau'n caniatáu iddynt ddatblygu'n annibynnol. Roedden nhw'n siarad yn gadarnhaol am y cymorth academaidd ac roeddent wedi nodi lefelau uchel o foddhad â hyn yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr ac mewn arolygon mewnol ymysg y dysgwyr addysg uwch.

37 Mae'r Coleg yn cynnig cefnogaeth o fewn a thu allan i'r cyrsiau academaidd, yn cynnwys cefnogaeth gan y Canolfannau Llwyddiant a Sgiliau, y Gwasanaethau Myfyrwyr, y Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol, hyfforddwyr dysgu, swyddogion lles, a'r Tîm Gyrfaoedd a Syniadau. Mae'r Coleg yn darparu cyfleoedd i'w fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd a'u sgiliau cydweithio drwy gysylltiadau â chyflogwyr a darparwyr eraill.

### Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd sy'n ymwneud ag ansawdd yn rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant.

38 Mae gan y Coleg strwythur pwyllgorau ymgynghori a phrosesau cysylltiedig sy'n cefnogi diwylliant o adolygu, ystyried a gwella yn ei ddarpariaeth addysg uwch er budd y myfyrwyr. Mae'r Coleg yn defnyddio adborth gan ei fyfyrwyr i hysbysu ei brosesau gwneud penderfyniadau, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr y myfyrwyr ar nifer o'i bwyllgorau trawsgolegol. Pan fydd gweithgareddau monitro'n canfod problemau gydag un o'r rhaglenni, caiff hyn ei drafod yng nghyfarfodydd bwrdd y rhaglen. Mae byrddau'r rhaglenni'n bwydo i mewn i'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd, ac yna i'r Bwrdd Academaidd Addysg Uwch sy'n gyfrifol am ansawdd y dysgu, yn ôl ei gylch gwaith.

### Yr arferion cyffredin: Mae dulliau'r darparwr o reoli ansawdd yn cynnwys defnyddio arbenigedd allanol.

39 Mae gan y Coleg arholwyr allanol ar gyfer ei raglenni. Mae'r adroddiadau arholwyr allanol a welwyd gan y tîm yn cadarnhau bod y safonau'n briodol i'r dyfarniadau ac yn cyfateb â'r meincnodau allanol perthnasol. Mae'r adroddiadau hefyd yn cadarnhau bod gwaith y myfyrwyr o safon briodol, ac mae'r asesiadau'n dangos eu bod yn cyflawni'r canlyniadau dysgu a fwriedir. Pan fydd y Coleg yn derbyn adroddiadau arholwyr allanol, mae timau'r rhaglenni'n eu hystyried, ac maent yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd byrddau rhaglenni a'u goruchwylio gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd.

### Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn cynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o ddatblygu, sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol.

40 Mae darpariaeth addysg uwch y Coleg wedi ei halinio'n agos â'r galw gan y cyflogwyr a'r diwydiant yn yr ardal. Ar hyn o bryd, mae'r Coleg yn gweithio gyda nifer o gyrff a sefydliadau dyfarnu ac felly mae'n rhaid iddo ddilyn gwahanol reoliadau academaidd a gwahanol fframweithiau asesu sy'n darparu'r sail ar gyfer gwneud asesiadau dibynadwy o gyflawniad y myfyrwyr. Caiff ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr ei fonitro'n barhaus gan bartneriaid dyfarnu'r Coleg a thrwy brosesau sicrhau ansawdd mewnol a strwythur pwyllgorau ymgynghori'r Coleg. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y cyrsiau y mae'r Coleg yn eu darparu wedi eu llunio'n dda, a'u bod yn rhoi profiad academaidd o safon uchel i'r myfyrwyr i gyd, ac yn caniatáu i gyflawniad y myfyriwr gael ei asesu mewn ffordd ddibynadwy.

41 Mae'r Coleg wedi ei ymrwymo i wneud gwahaniaeth positif i'w gymuned, a chlywodd y tîm adolygu gan y myfyrwyr a'r staff am nifer o esiamplau o fyfyrwyr o gefndiroedd anhraddodiadol sydd wedi cael canlyniadau da yn y Coleg. Cefnogir y myfyrwyr drwy gydol eu hastudiaethau, o'r cam derbyn hyd y graddio, gan rwydwaith cefnogi cynhwysfawr. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn dangos bod y staff yn darparu cymorth addysgu da, yn gosod asesiadau ymarferol ac ysgrifenedig sy'n ddigon heriol, ac yn rhoi adborth manwl. Cesglir data manwl am gynnydd, cwblhad, cyrhaeddiad a chanlyniadau graddedigion a defnyddir y data hwn mewn prosesau monitro ac adolygu. Felly, mae'r tîm adolygu o'r farn bod y myfyrwyr i gyd, o'r cam derbyn hyd y graddio, yn derbyn y gefnogaeth y maent ei hangen i lwyddo ym maes addysg uwch ac i elwa o'r addysg uwch.

## Y Disgwyliadau o ran Ansawdd sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

42 Mae gan y Coleg brosesau derbyn sy'n eglur ac yn deg ac sy'n cynnwys cydnabod dysgu blaenorol ac ystyried ceisiadau gan fyfyrwyr sydd â chymwysterau ansafonol sy'n adlewyrchu natur ei myfyrwyr. Mae gan y staff academaidd gymwysterau da, ac maent yn gwneud gwaith ymchwil ac yn cyfranogi yn y gymuned academaidd ehangach. Mae cysylltiad

agos â staff cymorth er mwyn ateb anghenion bugeiliol ac academaidd y myfyrwyr. Cafodd y broses o fonitro ac adolygu profiad y myfyrwyr ei gwella'n ddiweddar a chadarnhawyd hynny gan adroddiadau'r corff dyfarnu a'r arholwyr allanol. Ystyrir sylwadau'r myfyrwyr a gweithredir arnynt, a barn gyffredinol y myfyrwyr oedd eu bod yn fodlon â'u profiad.

## Y feirniadaeth

43 I ffurfio ei feirniadaethau, gallai'r tîm adolygu archwilio ystod o dystiolaeth ddogfennol, sy'n cynnwys dogfen hunanwerthusiad a chyflwyniad y myfyrwyr; a gallai'r tîm adolygu hefyd gwrdd ag amrywiaeth o staff a myfyrwyr. Galluogodd y dystiolaeth i'r tîm adolygu archwilio'r ddarpariaeth addysgol a gynigir i'r myfyrwyr, o'r cam derbyn hyd y graddio. Roedd y tîm adolygu'n gallu gweld tystiolaeth gadarn oedd yn dangos bod y cyrsiau wedi eu llunio'n dda, gan ddarparu profiad academaidd o safon uchel a chymorth academaidd a bugeiliol. Mae hynny'n galluogi i'r myfyrwyr lwyddo ym maes addysg uwch ac elwa o'r addysg uwch. Galluogodd y dystiolaeth i'r tîm adolygu weld bod y ddarpariaeth yn bodloni'r Disgwyliadau, yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin yn ymwneud ag ansawdd sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU.

44 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo **hyder** bod ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.

## Sylwadau am gydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg

45 Mae'r Safonau Iaith Gymraeg yn berthnasol i ddarpariaeth addysg uwch y Coleg mewn nifer o feysydd, sy'n cynnwys cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, a chadw cofnodion. Mae'r Coleg yn cyhoeddi adroddiad blynyddol dan y teitl 'Dathlu popeth Cymraeg' sy'n rhoi manylion ei weithgareddau cyfredol i fodloni gofynion y Safonau Iaith Gymraeg sy'n berthnasol iddo, er enghraifft drwy gefnogi dwyieithrwydd cynyddol ym mhob agwedd o'i waith a hybu cyfleoedd i'w staff a'i fyfyrwyr i gyd i siarad, dysgu a byw yn y Gymraeg. Pennaeth y Coleg sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod y Coleg yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg, gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu sy'n goruchwylio gwaith bob dydd y Coleg mewn perthynas â'r Safonau Iaith Gymraeg, a'r Is-Bennaeth (Addysg Uwch a Rhyngwladol) sy'n cadeirio Grŵp Strategol y Gymraeg.

46 Mae'r Coleg yn hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru mewn nifer o ffyrdd. Mae'r holl ddeunyddiau marchnata ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac anogir y myfyrwyr i gyfathrebu â'r Coleg yn y Gymraeg. Mae polisïau allweddol sy'n cyfeirio at y Safonau Iaith Gymraeg neu sydd ar gael yn gyfan gwbl yn Gymraeg. Trwy gydol y flwyddyn academaidd, mae'r Coleg yn cynnal nifer fawr o ddigwyddiadau i ddathlu'r Gymraeg a diwylliant Cymru sy'n cynnwys ei staff a'i ddysgwyr i gyd, er enghraifft Diwrnod Shwmae Su'mae (bob mis Hydref) ac Wythnos y Gymraeg (bob mis Mawrth). Mae'r dathliadau hyn yn cynnwys perfformiadau byw yn y Gymraeg yn ystod amser cinio, siaradwyr gwadd, gweithdai, a gweithgareddau yn y dosbarth. Mae'r Coleg hefyd yn gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid allanol i hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru, er enghraifft, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

47 Hefyd, mae'r Coleg wedi penodi nifer o Hyrwyddwyr Addysg Uwch Gymraeg, sy'n adrodd i Reolwr y Cwricwlwm Cymraeg. Eu rôl yw annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, a chefnogi a datblygu'r Gymraeg, diwylliant Cymru a'r cwricwlwm Cymraeg yn eu hardal yn ogystal â chynllunio a darparu cyfleoedd allgwricwlaidd, sesiynau gyda siaradwyr gwadd, a dathliadau i'r dysgwyr i gyd gymryd rhan ynddynt, ond mae rhai cyfleoedd ar gael i aelodau o'r staff a dysgwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg yn unig. Mae'r Hyrwyddwyr Addysg Uwch Gymraeg a Rheolwr y Cwricwlwm Cymraeg yn cynnal cyfarfodydd mewn grŵp bob pythefnos, yn ogystal â chyfarfodydd un-i-un bob mis, i archwilio cyfleoedd newydd i hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y Coleg.

48 Mae rhaglen Gymraeg ar-lein ar gael i ddechreuwyr er mwyn cefnogi'r staff a'r myfyrwyr hynny sydd â diddordeb mewn dysgu Cymraeg. Mae'r Coleg hefyd yn cefnogi'r rheiny sy'n medru'r Gymraeg yn well yn barod i symud ymlaen ymhellach drwy gynnig gwersi Cymraeg wedi eu teilwra, yn dibynnu ar eu lefelau a'u hanghenion. Mae'r gwersi hyn ar gael bob wythnos drwy gydol y flwyddyn academaidd. Mae'r Coleg yn darparu rhagor o gyfleoedd allanol i'w staff gofrestru ar raglen fentora, neu ennill gradd MA mewn Addysgu Dwyieithog, a chael rhagor o hyfforddiant am ddulliau o addysgu'n ddwyieithog. Mae sesiynau hyfforddi mewnol ar gael i'r staff i gyd ddwywaith y flwyddyn i gefnogi'r Gymraeg ac addysgu dwyieithog. Ar adeg yr ymweliad adolygu, roedd 50 o fyfyrwyr ac wyth aelod o staff yn y Coleg a ddywedodd bod ganddynt ryw lefel o allu yn y Gymraeg. Yn ystod yr ymweliad adolygu, cyfarfu'r tîm â staff a myfyrwyr a gadarnhaodd bod cyfleoedd ar gael i gyfathrebu yn y Gymraeg, a bod y Coleg yn cefnogi'r rheiny sydd â diddordeb mewn datblygu eu sgiliau siarad Cymraeg ymhellach.

**QAA2761 - R13412 - Mai 23**

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2023
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557000
Gwefan: www.qaa.ac.uk